

**Cyhoeddi cais yn unol ag Erthygl 50(2)(b) o Reoliad (UE) Rhif**

**1151/2012 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 21 Tachwedd 2012 ar gynlluniau ansawdd ar gyfer cynhyrchion a bwydydd amaethyddol**

Mae'r cyhoeddiad hwn yn rhoi'r hawl i wrthwynebu'r cais yn unol ag Erthygl 51 o Reoliad (UE) Rhif 1151/2012 Senedd Ewrop a'r Cyngor.

# Manyleb cynnyrch arbenigol traddodiadol wedi'i warantu

## 'Traditionally Reared Pedigree Welsh Pork' / 'Porc Cymreig Pedigri Wedi'i Fagu'n Draddodiadol'

Rhif CE: UK-TSG-0007-01396 – 27.10.2015

### 'Y Deyrnas Unedig'

#### 1. Enw(au) i'w cofrestru

'Traditionally Reared Pedigree Welsh Pork' / 'Porc Cymreig Pedigri wedi'i Fagu'n Draddodiadol'

#### 2. Math o Gynnyrch

Dosbarth 1.1. Cig ffres (ac offal)

#### 3. Rhesymau dros gofrestru

##### 3.1. A yw'r cynnyrch

o ganlyniad i ddull cynhyrchu, prosesu neu gyfansoddiad sy'n cyfateb i arfer traddodiadol ar gyfer y cynnyrch neu'r bwyd hwnnw

yn cael ei gynhyrchu o ddeunyddiau crai neu gynhwysion a ddefnyddir yn draddodiadol.

Mae "Porc Cymreig Pedigri wedi'i Fagu'n Draddodiadol" yn dod o foch sydd wedi'u magu yn ôl dull cynhyrchu sy'n draddodiadol o ran arferion.

Mae'r dull magu traddodiadol yn caniatáu cyfradd twf arafach, mwy naturiol ac yn blaenoriaethu lleihau lefelau straen a safonau lles uchel.

##### 3.2. A yw'r enw

wedi cael ei ddefnyddio'n draddodiadol i gyfeirio at y cynnyrch penodol

yn nodi cymeriad traddodiadol neu gymeriad penodol y cynnyrch

Mae nodweddion unigryw "Porc Cymreig Pedigri wedi'i Fagu'n Draddodiadol" a restrir isod yn rhoi cymeriad penodol i'r cynnyrch.

## Carcas

- cyhyr llygad lwyn da a lwyn hir
- morddwydydd datblygedig
- isafswm braster cefn o 10mm ar bwysau porc > 50 cilogram (pwysau marw) ac isafswm braster cefn o 14mm ar bwysau trwm > 75 cilogram (pwysau marw)
- lliw golau ond y lliw yn tywyllu wrth i'r mochyn gyflawni pwysau lladd trymach pan gaiff ei goginio
- blas cain ac arogl sawrus sy'n datblygu pan fydd wedi aeddfedu
- brau oherwydd y lefelau braster uwch cyffredinol yn y cig

Mae'r nodweddion hyn yn deillio o gyfuniad o ddwy elfen: y dull magu traddodiadol; a bod rhaid i'r moch fod yn Foch Cymreig Pedigri.

Mae gan y brîd Cymreig Pedigri hanes hir o fridio detholus ar gyfer nodweddion carcass arbennig a rhinweddau bwyta penodol.

## 4. Disgrifiad

**Disgrifiad o'r cynnyrch y mae'r enw o dan bwynt 1 yn berthnasol iddo, gan gynnwys ei brif nodweddion corfforol, cemegol, microbiolegol neu organoleptig sy'n dangos cymeriad penodol y cynnyrch (Erthygl 7(2) o'r Rheoliad hwn)**

Mae "Porc Cymreig Pedigri wedi'i Fagu'n Draddodiadol" yn borc o Foch Cymreig Pedigri sydd wedi'u magu yn ôl system gynhyrchu draddodiadol.

Mae carcass "Porc Cymreig Pedigri wedi'i Fagu'n Draddodiadol" yn adnabyddus am ei gydbwysedd, gan ddarparu cyhyr llygad lwyn da, lwyn hir a morddwydydd datblygedig.

Mae ganddo gyfradd lladd uchel ar isafswm o 65% ac mae'n graddio'n dda ar bob pwysau.

Mae "Porc Cymreig Pedigri wedi'i Fagu'n Draddodiadol" yn tueddu i ychwanegu braster, ond nid yw hyn yn ormodol, gydag isafswm trwch braster cefn o 10mm ar bwysau porc a 14mm ar bwysau trymach (75 cilogram pwysau marw).

Mae'r cig yn olau mewn lliw fel y'i diffinnir gan ddadansoddiad mesurydd cromia annibynnol a oedd yn ei ddisgrifio fel un isel mewn gwerthoedd coch a melyn, gan ddarparu lliw cig llai dwys.

Bydd y lliw cig hwn yn tywyllu wrth i'r mochyn gyflawni pwysau lladd trymach ac, ar bwysau lladd uwch, mae'n amlwg bod llawer o fraster cyhyrol (marmor) heb ormod o fraster cefn.

Pan gaiff ei goginio, mae gan y cig flas porc cain blasus ac arogl sawrus sy'n datblygu wrth iddo aeddfedu. Mae'r porc yn frau iawn oherwydd y lefelau braster uwch cyffredinol yn y cig.

Oherwydd lefelau braster uwch naturiol y porc, efallai y bydd colledion coginio uwch a fydd yn amrywio yn dibynnu ar doriad y cig.

## Data cyfansoddiadol

Gwerth caloriffig: >300kcal/100g

Braster cefn: Isafswm o 10mm (ar bwysau porc > 50 cilogram (pwysau marw)

Isafswm o 14mm (ar bwysau trwm > 75 cilogram (pwysau marw)

Mae'r rhinweddau bwyta nodedig ac unigryw hyn yn deillio o gyfuniad o:

- hanes hir y brîd cymreig pedigri a'i hanes o fridio detholus ar gyfer y rhinweddau carcass a bwyta penodol hyn
- y dulliau magu traddodiadol sy'n blaenoriaethu lleihau lefelau straen a safonau lles uchel ac sy'n caniatáu cyfradd twf naturiol arafach.

Er bod y teitl yn cyfeirio at y gair 'porc', mae'r cais hwn yn berthnasol i bob math o borc ac offal a dorrir o garcas.

### **4.2. Disgrifiad o ddull cynhyrchu'r cynnyrch y mae'r enw o dan bwynt 1 yn berthnasol iddo y mae'n rhaid i'r cynhyrchwyr ei ddilyn, gan gynnwys, lle y bo'n briodol, natur a nodweddion y deunyddiau crai neu'r cynhwysion a ddefnyddir, a'r dull a ddefnyddir i baratoi'r cynnyrch (Erthygl 7(2) o'r Rheoliad hwn)**

Mae "Porc Cymreig Pedigri wedi'i Fagu'n Draddodiadol" yn cael ei fagu gan ddefnyddio arferion traddodiadol penodol sy'n wahanol iawn i systemau cynhyrchu masnachol confensiynol.

Mae "Porc Cymreig Pedigri wedi'i Fagu'n Draddodiadol" yn borc a gynhyrchir o Foch Cymreig Pedigri a nodwyd adeg eu geni.

Rhaid rhoi gwybod i Gymdeithas Moch Prydain neu gymdeithas bridwyr moch sy'n cadw llyfr cenfeintiau Moch Cymreig Pedigri am bob mochyn sy'n cael ei eni. Gellir nodi pob anifail drwy ei datw clust unigol, sy'n darparu dilysrwydd a lefel uchel o allu i olrhain.

### **Porthiant**

Mae moch "Porc Cymreig Pedigri wedi'i Fagu'n Draddodiadol" yn dilyn trefn fwydo draddodiadol. Mae'r moch yn cael deiet sy'n isel mewn protein lle nad yw canran protein y porthiant a brynir yn fwy nag 20% ar ôl diddyfnu.

Mae lefelau protein isel yn yr arfer bwydo traddodiadol ar y cyd â chyfradd twf arafach naturiol y brîd yn cyfrannu at gynnydd cyfartalog is mewn pwysau byw dyddiol o gymharu â systemau cynhyrchu modern.

Mae tuedd y brîd i ychwanegu mwy o fraster yn cyfrannu hefyd at leihad mewn effeithlonrwydd wrth drosi porthiant yn gig coch.

Mae'r porthiant a ddefnyddir fel arfer yn gyfuniad o borthiant syth wedi'i ategu gan borthiant cyfansawdd. Lle'n bosibl, mae porthiant syth yn cael ei dyfu ar y fferm neu, os yw'n ymarferol, yn dod o ffynonellau lleol.

Pan gedwir moch mewn tyddyn, yn draddodiadol mae eu porthiant yn cael ei ategu gan gyd-gynhyrchion bwyd yn aml.

Mae'r rhain yn cynnwys maidd a gwastraff llaeth o'r diwydiant llaeth, burum a gwastraff bragwyr o'r diwydiant bragu a gwastraff bara, grawnfwyd a bisgedi.

Ategir deietau hefyd â gwair a chnydau porthiant ac, weithiau, mae traddodiad canoloesol mesobr yn digwydd lle mae moch yn porthi mewn coetir ar fes a chnau a ffrwythau tymhorol eraill.

Lle bynnag y bo modd, dylid cael gafael ar ddewisiadau amgen yn lle soia o'r UE megis blawd had rêp, ffa maes, blawd blodau haul a/neu bys.

Ni chaniateir ychwanegion deietegol synthetig na hyrwyddwyr twf.

### **Amgylchedd**

Mae "Porc Cymreig Pedigri wedi'i Fagu'n Draddodiadol" yn dod o Foch Cymreig Pedigri sy'n cydymffurfio â'r arfer traddodiadol o gael eu magu'n helaeth a chael amgylchedd magu naturiol sy'n caniatáu cyfradd twf naturiol a chyn lleied o straen â phosibl

Mae "Porc Cymreig Pedigri wedi'i Fagu'n Draddodiadol" yn dod o foch gwydn sy'n cael eu magu'n helaeth dan do ac yn yr awyr agored.

Rhaid i bob system fagu gadw at safon lles uchel (i safon Rhyddid Bwyd yr RSPCA neu gynlluniau cyfatebol).

Yn ogystal, rhaid i bob daliad ddilyn y Cod Argymhellion ar gyfer Lles Da Byw: Moch neu gynlluniau cyfatebol.

Magu helaeth yn yr awyr agored; - Pan gânt eu magu yn yr awyr agored, rhaid cadw'r moch ar uchafswm cyfradd stocio o 30 hwch/ha ac isafswm lle padog o 40 metr sgwâr fesul mochyn wedi'i besgi (rhwng diddyfnu a gorffennu).

Magu helaeth dan do; - Pan gânt eu magu'n helaeth dan do, rhaid cadw hychod mewn buarthau gwellt gydag isafswm arwynebedd llawr o 3.5 metr sgwâr fesul hwch ac 1.54 metr sgwâr fesul mochyn gorffennu.

Ni chaniateir magu mewn llociau â slatiau llawn.

### **Hwsmonaeth**

Rhaid i bob mochyn sy'n cynhyrchu "Porc Cymreig Pedigri wedi'i Fagu'n Draddodiadol" gydymffurfio ag arferion hwsmonaeth traddodiadol megis;- Isafswm oedran diddyfnu 6-8 wythnos.

Dim ond o dan gyngor milfeddygol y caniateir arferion hwsmonaeth dwys modern, gan gynnwys clipio dannedd, rhoi modrwy yn y trwyn a thocio cynffonnau, ac ni ddylent gael eu hystyried fel triniaethau rheolaidd.

Dim ond ar ôl cael cyngor milfeddygol neu ar gyfer moch trwm a fwriedir ar gyfer cynhyrchion traddodiadol y caniateir disbaddiad.

Gwaherddir defnyddio cewyll cario a geni.

## **Cludiant**

Mae systemau cludo anifeiliaid ar gyfer moch Porc Cymreig Pedigri wedi'i Fagu'n Draddodiadol wedi'u cynllunio i sicrhau nad yw da byw yn gorfod dioddef trallod neu anghysur diangen.

Rhaid i anifeiliaid gael eu cludo'n uniongyrchol o'r fferm i'r lladd-dy, ac ni ddylent gael eu cludo gyda moch o ddaliadau eraill.

Rhaid cludo a thrafod y moch cyn lleied â phosibl, a rhaid i'r moch gael eu lladd yn y lladd-dy addas agosaf er mwyn lleihau straen.

Rhaid i'r isafswm lwfans gofod ar gyfer moch sy'n cael eu cludo fod fel a ganlyn:

<b>Pwysau Byw (cilogram)</b>	<b>Cyfradd Stocio (cilogram/m<sup>2</sup>)</b>	<b>Lwfans Gofod (m<sup>2</sup>/mochyn)</b>
10	137	0.05
30	200	0.15
35	218	0.16

40	222	0.18
100	235	0.43
110	245	0.45
hychod	316	0.79

### **Lladd/Cigyddiaeth**

Mae Moch Cymreig Pedigri ar gyfer cynhyrchu "Porc Cymreig Pedigri wedi'i Fagu'n Draddodiadol" yn cael eu lladd mor agos â phosibl i'r man y cawsant eu magu, mewn lladd-dai ar raddfa fach os oes modd, ac ni ddylai'r anifeiliaid ddiodef unrhyw drallod nac anghysur diangen cyn eu lladd.

Rhaid i offer stynio/lladd gael eu cynllunio a'u cynnal a chadw er mwyn sicrhau bod y moch yn cael eu stynio neu eu lladd yn gyflym ac yn effeithiol.

Rhaid hongian carcasau "Porc Cymreig Pedigri wedi'i Fagu'n Draddodiadol" am o leiaf 2 ddiwrnod ar ôl eu lladd cyn eu torri (ond am gyfnod hwy os oes modd) mewn storfa oer ar dymheredd o dan 4 gradd canradd.

Gall amrywiad naturiol yn y brîd o wahanol linellau gwaed a systemau amrywiol lle mae bridwyr yn gorffennu eu stoc arwain at amrywiad yng nghyfansoddiad a lefelau braster cefn carcasau.

Mae'r amrywiad naturiol hwn yn gofyn am sgiliau cigyddiaeth traddodiadol a thorri profiadol wrth brosesu'r carcas.

Mae carcasau "Porc Cymreig Pedigri wedi'i Fagu'n Draddodiadol" yn cael eu cigyddu gan ddefnyddio dulliau traddodiadol, gan gynnwys torri 'ar y bachyn' a thorri bloc traddodiadol.

Mae lleihau'r straen ar y moch drwy gadw at safonau lles uchel yn ystod eu magu helaeth, wrth eu cludo a chyn eu lladd, ynghyd â natur ddof y brîd a'r ffaith nad oes ganddynt unrhyw ragduddiadau genetig amlwg i straen (megis Syndrom Straen Mochaid - PSS) yn arwain at achosion prin o gig gwelw, meddal, archwysol (PSE) neu dywyll, cadarn, sych (DFD). Adlewyrchir hyn yn ansawdd bwyta brau "Porc Cymreig Pedigri wedi'i Fagu'n Draddodiadol."

### **4.3. Disgrifiad o'r elfennau allweddol sy'n sefydlu cymeriad traddodiadol y cynnyrch (Erthygl 7(2) o'r Rheoliad hwn)**

Mae cymeriad penodol "Porc Cymreig Pedigri wedi'i fagu'n Draddodiadol" yn amlwg yn ei rinweddau bwyta sy'n deillio o 2 brif elfen:

- Hanes hir y brîd Cymreig Pedigri a'i fridio detholus gofalus ar gyfer rhinweddau carcas a chig penodol a nodweddion bwyta

- Dull magu traddodiadol

Mae gan Foch Cymreig Pedigri le unigryw o fewn sbectrwm bridiau moch brodorol Prydain fel un o'r tri phrif frîd yr adeiladwyd y diwydiant moch modern arnynt.

Mae ei gydffurfiad carcass yn rhannu priodoleddau bridiau pedigri datblygedig mwy modern megis y Gwyn Mawr neu'r Landras, ac mae'n cadw blas bridiau pedigri brodorol traddodiadol sydd wedi eu gwella i lai o raddau megis Berkshire, Tamworth a Gloucester Old Spot.

Mae'r nodweddion penodol hyn i'r brîd wedi deillio o fridio detholus gofalus dros y ganrif ddiwethaf.

Er bod nodweddion carcass megis morddwydydd datblygedig wedi gwella, mae'r brîd yn cadw ei nodweddion ffenoteip a genoteip traddodiadol megis cyfradd twf arafach naturiol a thuedd i ychwanegu braster.

Mae hyn, ar y cyd â'i system fagu helaeth draddodiadol, yn arwain at gig â lliw goleuach a gydnabyddir am ei freuder gyda gwerth caloriffig uwch a suddlonedd wrth goginio.

O gymharu â phorc masnachol modern hybrid neu wedi'i groesfridio sydd wedi'i fagu'n gonfensiynol, mae gan "Borc Cymreig Pedigri wedi'i Fagu'n Draddodiadol":

- lliw cyhyrau llai datblygedig (goleuach)
- gwell breuder
- blas porc mwy cain
- mwy o drwch i'r braster cefn
- canran gyffredinol uwch o fraster
- gwerth caloriffig uwch
- suddlonedd wrth goginio

Wrth gymharu cyfradd twf; gall Mochyn Cymreig Pedigri gymryd o leiaf 154 diwrnod i gyrraedd y lladd-dy, tra gall porc masnachol sy'n cael ei fagu'n ddwys gymryd cyn lleied â 126 diwrnod.

Mae'r twf arafach hwn yn deillio o gyfuniad o dwf naturiol arafach y brîd, ynghyd â'r porthiant protein is a'r dull helaeth o gynhyrchu traddodiadol.

Gellir priodoli lliw golau'r cig oherwydd lliw cyhyrau llai datblygedig a breuder cynyddol a blas porc cain i'r twf arafach hwn.

Mae tuedd naturiol y brîd i ychwanegu braster a'i effeithlonrwydd is wrth drosi porthiant yn gyhyrau coch yn darparu carcass â lefel uwch o fraster o gymharu â moch masnachol confensiynol modern.



Mae gan "Porc Cymreig Pedigri wedi'i Fagu'n Draddodiadol" fesuriad braster cefn ar bwysau porc dros 10mm o gymharu â phorc masnachol sydd â mesuriad braster cefn targed o 8mm.

Ar bwysau uchel, mae mesuriadau braster cefn cyfartalog ar gyfer "Porc Cymreig Pedigri wedi'i Fagu'n Draddodiadol" yn aml yn fwy nag 14mm.

Yn ogystal â chyfraddau braster cefn uwch, ceir hefyd gyfansoddiad carcass cyffredinol uwch o fraster, sy'n darparu gwerth caloriffig cyfartalog sy'n fwy na 300kcal/100g yn hytrach na gwerth cyfartalog o lai na 200kcal/100g sy'n gysylltiedig â phorc wedi'i fagu'n fwy masnachol. Mae'r lefel uwch hon o fraster yn arwain at fwy o suddlonedd wrth goginio.

Mae "Porc Cymreig Pedigri wedi'i Fagu'n Draddodiadol" yn darparu pwynt o wahaniaeth diffiniedig hefyd o gymharu â phorc o fridiau brodorol eraill sydd wedi'u gwella i lai o raddau, gyda:

- llai o drwch braster cefn
- gwell graddiant ar draws pwysau trymach
- morddwydydd datblygedig
- cyhyr llygad lwyn mwy o faint
- lwyn hirach
- canrannau lladd allan uchel

Yn draddodiadol, mae gan fridiau pedigri sydd wedi'u gwella llai fesuriad braster cefn cyfartalog sy'n fwy nag 14mm ar bwysau porc o gymharu â "Phorc Cymreig Pedigri wedi'i Fagu'n Draddodiadol" sy'n graddio ar o leiaf 10mm ar bwysau porc.

Ar bwysau trymach, byddai gan fridiau brodorol sydd wedi'u gwella i lai o raddau fesuriadau braster cefn o fwy nag 20mm ac, yn aml, cymaint â 30mm, tra bod "Porc Cymreig Pedigri wedi'i Fagu'n Draddodiadol" yn graddio'n dda ar isafswm o 14mm ar bwysau trymach.

Mae bridio detholus y Mochyn Cymreig Pedigri dros y ganrif ddiwethaf wedi arwain at garcas sy'n darparu cyhyr llygad lwyn mwy o faint, lwyn hirach, morddwydydd datblygedig, canrannau lladd allan uwch a gwell graddio ar draws pwysau trymach o gymharu â'r bridiau brodorol sydd wedi'u gwella i lai o raddau.

Mae'r nodweddion cyfunol hyn yn cyfrannu at y gydnabyddiaeth hanesyddol bod "Porc Cymreig Pedigri wedi'i Fagu'n Draddodiadol" yn garcas delfrydol i'r cigydd.

Cefnogir nodweddion penodol "Porc Cymreig Pedigri wedi'i Fagu'n Draddodiadol" gan ddata hanesyddol helaeth, ac fe'i dadansoddwyd drwy raglen o brofion cyfansoddiadol ac organoleptig.

Profodd yr astudiaeth yn wrthrychol fod "Porc Cymreig Pedigri wedi'i Fagu'n Draddodiadol" yn darparu pwynt o wahaniaeth o ran treftadaeth, ansawdd a blas.

Hanes hir brîd y Mochyn Cymreig Pedigri: -

Mae gan foch gysylltiad hirsefydlog â Chymru, a chyfeirir atynt yn gyson mewn llenyddiaeth Gymraeg ganoloesol. Mae'r Mabinogion, sy'n dyddio o'r 11eg Ganrif, yn siarad am "anifeiliaid bychain, gwell eu cig na chig eidion. Bychain ydynt hwythau ac y maent yn newid eu henw.

Moch y'u gelwir yn awr." Dywedir bod y creaduriaid hyn (moch) wedi'u cyflwyno i'r byd modern gan Arawn, Brenin Annwfn. Mae chwedl Arthur yn cynnwys y baedd gwyllt enwog, y Twrch Trwyth, hefyd a brenin y baeddod Ysgithrwyn Benbaedd, yn ogystal â'r hwch wen ddoeth Hen Wen.

Prin yw'r hanes o gadw moch wedi'u masnacheiddio'n ddwys yng Nghymru; ar y cyfan roedd moch yn cael eu cadw dan do neu'n cael porthiant yn dymhorol yn yr awyr agored.

Mae treftadaeth a thraddodiad brîd y Mochyn Cymreig Pedigri yn rhan o draddodiad tyddyn neu draddodiad y werin Gymreig.

Ceir traddodiad hefyd o fagu trefol ar raddfa fach yn y trefi diwydiannol lle'r oedd y twlc mochyn yn beth cyffredin yng ngerddi llawer o dai teras.

Roedd tylciau mochyn wedi'u gwneud o gerrig sych yn fath o bensaernïaeth Gymreig gynhenid hefyd, yn enwedig yn y De.

Fel gwlad sy'n tyfu porfa, mae cynnyrch cig oen a llaeth yn gyffredin iawn yng Nghymru. Yn draddodiadol, byddai tyddynwyr yn gwerthu eu hanifeiliaid cig oen a chig eidion yn y farchnad gan y byddent yn gallu cael prisiau llawer uwch.

Roedd hyn yn caniatáu iddynt gadw eu moch eu hunain; gan olygu mai porc oedd y cig oedd yn cael ei fwyta gartref fwyaf mewn ardaloedd gwledig. Y traddodiad oedd magu moch drwy'r haf a'r hydref a difa'n dymhorol yn y gaeaf ar y fferm.

Byddai gan bob ardal wledig ddyn teithiol a fyddai'n darparu gwasanaeth lladd a thorri, yn aml mewn mannau ad hoc mewn ysguboriau, adeiladau allan neu yn yr awyr agored hyd yn oed.

Byddai'r lladd blynyddol yn achlysur cymdeithasol, gyda holl aelodau'r teulu'n cyfrannu ar y dydd.

Byddai cynhyrchion ffres megis fflagots yn cael eu gwneud o'r plwc (calon, afu ac ysgyfaint), byddai'r pen yn cael ei ferwi mewn dŵr hallt i wneud cosyn pen, byddai'r coluddion yn cael eu glanhau i'w defnyddio fel casinau ar gyfer selsig ffres, byddai cig ffres yn cael ei rannu'n lleol a byddai'r ystlysau a'r morwydydd yn cael eu halltu a'u cadw i ddarparu cig ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Gellir olrhain y brîd Cymreig Pedigri yn ôl i frid o foch gwyn clustlipa brodorol sydd wedi'u cadw yng Nghymru cyhyd ag y bo cofnodion yn bodoli.

Mae'r brîd wedi cyfrannu'n aruthrol at amaethyddiaeth fodern fel un o'r tri brîd y seiliwyd cynhyrchu moch hybrid modern arnynt. Fodd bynnag, gyda'r ymgyrch barhaus tuag at ddwysáu, roedd angen carcasau porc a chig moch mwy coch, heb ystyried pwysigrwydd blas.

Nid oedd y cwmnïau bridio mwy o faint a oedd yn dominyddu'r farchnad o blaid y Brîd Cymreig Pedigri, ac arweiniodd hyn at ddirywiad dramatig yn nifer y moch a oedd yn cael eu cadw.

Yn 2002, dim ond 82 o Foch Cymreig a gofrestrwyd yn llyfr y cenfeintiau; yn 2005, datganwyd bod y brîd yn rhywogaeth mewn perygl ac, ers hynny, mae wedi'i ddsbarthu fel brîd prin gan Ymddiriedolaeth y Bridiau Prin.

### **Y dull magu traddodiadol**

Mae hanes hir y brîd a'i nodweddion naturiol, ar y cyd â'i dull magu traddodiadol, yn darparu cymeriad penodol unigryw "Porc Cymreig Pedigri wedi'i Fagu'n Draddodiadol." Elfennau allweddol system fagu draddodiadol yw darparu'r canlynol: - Cyfradd twf naturiol

Y flaenoriaeth sylfaenol gyda "Phorc Cymreig Pedigri wedi'i Fagu'n Draddodiadol" yw i'r moch fod â chyfradd twf naturiol gydag isafswm o 154 diwrnod cyn mynd i'r lladd-dy.

Cyflawnir hyn drwy ddeiet protein isel o lai nag 20% ar ôl diddyfnu a ddylai ddod o ffynonellau lleol lle bo hynny'n bosibl.

Gall porthiant fod o borthiant syth neu borthiant cyfansawdd, a gellir ei ategu â phorthiant amgen a chyd-gynhyrchion bwyd o gynnyrch bwyd a phorthiant.

Ni chaniateir ychwanegion deietegol synthetig na hyrwyddwyr twf.

### **Magu helaeth**

Gellir magu "Porc Cymreig Pedigri wedi'i Fagu'n Draddodiadol" mewn systemau awyr agored a dan do, ond rhaid iddo fod mewn amgylcheddau naturiol o safon lles uchel (i safon Bwyd Rhyddid yr RSPCA neu debyg).

Rhaid i gyfraddau stocio, p'un a ydynt yn cael eu magu dan do neu yn yr awyr agored, alluogi moch i arddangos eu hymddygiad naturiol ac, os yw'r moch yn cael eu magu dan do, rhaid eu cadw mewn buarthau gwellt ac nid mewn llociau â slatiau llawn.

Ni ddylai arferion hwsmonaeth masnachol dwys megis diddyfnu pan fyddant yn 4 wythnos oed, defnyddio cewyll cario, cewyll geni, clipio dannedd, rhoi modrwy yn y trwyn, tocio cynffonnau a disbaddiad llawfeddygol fod yn driniaethau rheolaidd, a dim ond o dan gyngor milfeddygol y caniateir yr arferion hynny.

Caniateir disbaddiad ar gyfer moch a fwriedir ar gyfer cynhyrchion traddodiadol sy'n gofyn am foch trwm yn dilyn cyngor milfeddygol.

## **Lleihau Straen**

Mae'r system fagu draddodiadol wedi'i chynllunio i leihau straen i'r anifail gydol ei oes.

Mae moch "Porc Cymreig Pedigri wedi'i Fagu'n Draddodiadol" yn cael eu lladd mor agos â phosibl i'r man lle cawsant eu magu ac mewn lladd-dai ar raddfa fach os oes modd.

Rhaid cludo a thrafod y moch cyn lleied â phosibl er mwyn sicrhau nad yw'r moch yn dioddef unrhyw drallod neu anghysur diangen cyn eu lladd.

Mae anifeiliaid yn cael eu cludo'n uniongyrchol o'r fferm i'r lladd-dy, ac ni ddylent gael eu cludo gyda moch o ddaliadau eraill.

## **Arferion Prosesu Traddodiadol**

Rhaid hongian carcassau Porc Cymreig Pedigri wedi'i Fagu'n Draddodiadol am o leiaf 2 ddiwrnod i aeddfedu.

Mae'r broses hon yn datblygu blas ac yn tyneru'r cig.

Defnyddir dulliau torri traddodiadol i dorri'r carcass gan broseswyr sydd â'r profiad i ymdrin â chynnyrch traddodiadol.